Afasic GeirfA

Dyslecsia / anawsterau dysgu penodol

Beth yw dyslecsia/anawsterau dysgu penodol?

Defnyddir y termau hyn yn aml fel cyfystyron ac mewn sawl cyd-destun. Gellir defnyddio'r naill neu'r llall i ddisgrifio llawer o blant. Mae ystyr wahanol iddynt fodd bynnag a tharddiad gwahanol. Ni fyddai dyslecsig yn ddisgrifiad priodol o rai plant gydag anawsterau dysgu penodol.

Mae **dyslecsia** yn derm a fathwyd gan feddygon i ddisgrifio plant sy'n cael anhawster mawr i ddarllen, er eu bod yn ddeallus.

Mae **anawsterau dysgu penodol** yn derm a ddatblygwyd gan addysgwyr a seicolegwyr i ddisgrifio plant sy'n cael un neu ddwy agwedd ar ddysgu'n anodd ond sy'n gwneud yn dda mewn meysydd eraill. Mae'n bosibl ei ddefnyddio ar gyfer plant sydd â phroblem gyda mathemateg yn unig, er enghraifft. Prin y'i defnyddir ar gyfer plant lle mae oedi mewn sgiliau iaith lafar. Yn y mwyafrif o achosion bydd plant yn cael darllen ac ysgrifennu'n arbennig o anodd. Dyma'r grwp, mewn rhai achosion, y gellir defnyddio dyslecsig i ddisgrifio'r plant hefyd.

Gall y rhai sy'n ymwneud â'r plentyn anghytuno ar natur yr anawsterau darllen a dysgu ac ar y defnydd o'r termau i'w disgrifio. Mae llawer o athrawon yn amharod i ddefnyddio'r term dyslecsia, fel llawer o seicolegwyr addysgol.

Gellir disgrifio dyslecsia fel 'methiant annisgwyl i ddysgu iaith ysgrifenedig'. Mae annisgwyl yn awgrymu na ellir priodoli anawsterau'r plentyn i broblemau corfforol, emosiynol neu ddeallusol amlwg.

Tybiwyd yn gyffredinol bod yna gysylltiad cryf rhwng deallusrwydd a'r gallu i ddysgu darllen ac ysgrifennu. Rydym yn gwybod erbyn hyn nad yw hynny'n wir o angenrheidrwydd. Mae gan bawb gryfderau a gwendidau gwahanol o ran gallu, ac nid yw'n anghyffredin o gwbl bod person yn gallu rhesymu a datrys problemau'n well na darllen a sillafu, er enghraifft.

Cynhelir ymchwil i'r rhesymau pam bod plant sy'n dda mewn llawer o bethau'n cael darllen a sillafu'n anodd gan y rhai sy'n gweithio o dan y term 'dyslecsia'. Erbyn hyn seicolegwyr gwybyddol sy'n flaenllaw yn y maes yn hytrach na meddygon. Yn wir, mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi rhoi canllawiau clir y dylid ystyried dyslecsia fel problem seicolegol yn hytrach nag un feddygol. Nid yw llawer o seicolegwyr eraill a'r rhan fwyaf o athrawon yn dod i gysylltiad â'r ymchwil hon oherwydd eu methiant i dderbyn y term dyslecsia, er mai ystyr dyslecsia yw anhawster penodol gyda llythrennedd.

Defnyddir y term dyslecsia yn yr ystyr mwyaf priodol i ddisgrifio plant sydd â phatrwm o alluoedd gwybyddol sy'n peri iddynt dueddu at anawsterau llythrennedd. Dywedwn 'tueddu at' oherwydd ceir tystiolaeth bod dulliau dysgu priodol yn gallu lleihau'r datblygiad o anawsterau gyda darllen a sillafu, ac yn aml dileu'r anawsterau hyn yn gyfan gwbl.

Mae angen i blant sydd ag anawsterau iaith ysgrifenedig benodol gael eu hasesu a'u dysgu'n fedrus. Bydd yr asesiad hwn yn dechrau gydag athrawon ond gallai symud at seicolegwyr addysgol a therapyddion iaith a lleferydd.

Cyfeiriadau

Snowling, M (1987), *Dyslexia: a Cognitive Developmental Perspective*, Blackwell

Bishop, D ac Adams, C (1990), A prospective study of the relationship between specific language impairment phonological disorders and reading retardation, yn *Journal of Child Psychology and Psychiatry* 31, rhif 7, t.1027-1050

Bradley, L a Bryant, P (1983), Categorising sounds and learning to read: a casual connection, *Nature* vol. 310, t. 419-421

Awgrymiadau ar gyfer deunydd darllen pellach

Pumfrey a Reason, *Specific Learning Difficulties*, ALBSU

Sefydliadau eraill a all helpu

British Dyslexia Association
98 London Road, Reading, Berkshire RG1 5AU
Llinell gymorth 0118 9668 271 (llinell gymorth)

The Dyslexia Institute
133 Gresham Road, Staines, Middlesex TW18 2AJ
Ffôn: 01784 463851

Ysgrifennwyd gan Bob Daines, seicolegydd addysgol, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.